

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Hydref 2017

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, John D Jones, Maria O Roberts, Cynghorydd Sir Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto G Jones, Ieuan Jones, Ffion Williams, Einion Edwards, Trystan Humphreys. Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Aelod Cyfethol

Croesawyd Mrs Maria Owen Roberts yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fedi 2017

[1] Prosiect Caban

Croesawyd Steffan Richards i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad ganddo am brosiect partneriaeth rhwng gwasanaeth Llyfrgell Cyngor BS Conwy a CAB. Mae'r prosiect yn anelu i gynnig y canlynol; Ffrindiau Cartref, Gwasanaeth Achlysurol, ac Adrodd Straeon. Bydd cais loteri yn cael ei gwneud er mwyn cyllido'r gwaith.

Penderfynwyd cefnogi'r prosiect, y clerch i anfon llythyr ar ran y Cyngor Cymuned.

Materion yn Codi

[1.1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Cae Llwyd

Dywedodd y clerch nad oedd wedi derbyn gair pellach gan y Cyngor Sir ynglŷn â chais i wahardd cwn yn gyfan gwbl o'r cae.

[1.4] Diffibriliwr/Pentrellyncymer

[c] Nodwyd bod Guto Jones yn trefnu ynglŷn â chael diffibriliwr yng Nglasfryn.

[1.4] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys

Y clerch i drefnu i gael tocio'r coed ym mynwent yr eglwys

[1.5] Goleuadau Traffig yr A5 y Ddwryd

Nodwyd ateb Is Adran Rheoli'r Rhwydwaith ar yr A5, ei bod yn mynd i gadw llygad ar y sefyllfa.

[1.6] Datblygiad Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

Eglurodd y clerch nad oedd ateb wedi ei dderbyn i ymholiad ynglŷn cyfraniad ariannol i'r Cyngor Cymuned gan y cwmni

Y brif agenda

[1.7] Materion Cynllunio

Estyniad i'r cwrtal a garej a.y.b. Llety'r Bugail, Ffordd Rhuthun, Cerrig-y-Drudion.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.8] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol

[a] Nid yw'r Cyngor yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn datgan unrhyw feddiannau fesul cyfarfod. Eglurodd y clerc iddo gysylltu gyda'r archwiliwr ac esbonio bod y wybodaeth ar wefan y Cyngor.

[b] Ni wnaeth y Cyngor adolygu statws cyflogaeth y staff yn unol â chanllawiau HMRC a gyhoeddwyd fis Ebrill 2011. Dywedodd y clerc iddo eisoes ddatgan y taliad i HMRC a bod y taliad wedi ei gynnwys gyda gweddill ei incwm.

[c] Nid yw'r Cyngor wedi nodi 'r cyfeirnod cofnodion ac mae Mai 21ain 2017 oedd y dyddiad cymeradwyo. Y clerc i gwblhau'r blwch perthnasol.

[1.9] Penodiad yr Archwiliwr Mewnol

Penderfynwyd parhau gyda gwasanaeth Cwmni Busnes JDH ar gyfer gwasanaeth archwiliad mewnol. Y clerc i lofnodi'r cytundeb a'i ddychwelyd yn ôl i'r cwmni.

[2] Elusen Addysgol

Cytunodd John D Jones gynrychioli'r Cyngor ar yr Elusen Addysgol.

[2.1] Clwb Gweithgareddau Gwledig Haf 2017

Nodwyd bod cyfanswm o 106 o blant wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ystod misoedd yr haf.

[2.2] Gwrych Maes Aled

Y clerc i dynnu sylw bod y gwrych yn arwain i lawr tua'r feddygfa o ben ucha' Maes Aled angen ei dorri eto.

[2.3] Cyfleoedd Ariannu / Ardal Wledig Conwy

Penderfynwyd gwahodd Ms Meira Woosnam i gyfarfod nesa'r Cyngor.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

Gwahoddiad - .Gwobrau Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Conwy, Venue Cymru, Llandudno, 24ain Dachwedd 2017 am 7.30 y.h.

Cadeirydd _____